# Absenoldeb Astudio ar gyfer Meddygon Sylfaen

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd ag [Absenoldeb astudio - AaGIC](Absenoldeb astudio - AaGIC).

**Hawliau – Amser a Chyllideb**

Mae'r hawl amser yn y Sylfaen yn cael ei rannu rhwng y blynyddoedd F1 a F2 o hyfforddiant.

| Blwyddyn Sylfaen 1 |
|---|
| Hyd at 2 ddiwrnod i gwblhau cwrs ALS [1] |
| Hyd at 5 diwrnod ar gyfer sesiynau blasu [3] |
| Hyd at 3 diwrnod o absenoldeb astudio cyffredinol [4] |
| Hyd at 5 diwrnod o addysgu generig |
| **Cyfanswm – Hyd at 15 diwrnod** |
| *Dim Cyllideb Astudio ar gael* |

| Blwyddyn Sylfaen 2 |
|---|
| 3 diwrnod ar gyfer Diwrnodau Astudio F2 [2] |
| 5 diwrnod o addysgu generig [2] |
| Hyd at 5 diwrnod ar gyfer sesiynau blasu [3] |
| Hyd at 17 diwrnod ar gyfer absenoldeb astudio cyffredinol [4] |
| **Cyfanswm - Hyd at 30 diwrnod** |
| *£480 o gyllideb astudio* |

Mae gan Feddygon Sylfaen sy'n ymgymryd â Rhaglenni Sylfaen Arbenigol F1 001, 002 a 003 hawl hefyd i gymryd hyd at 5 diwrnod ychwanegol a £250 o gyllideb absenoldeb astudio i gefnogi elfen academaidd eu swydd.

[1] Mae'r cwrs ALS yn cael ei drefnu gan ganolfannau ôl-raddedig lleol, fel arfer tua dechrau'r flwyddyn hyfforddi. Dim ond ar gyfer elfennau addysgu wyneb yn wyneb y cwrs y gellir cytuno ar absenoldeb astudio, a gellir defnyddio Amser Hunangyfeiriedig (SDT) i gwblhau unrhyw fodiwlau e-ddysgu cysylltiedig.

[2] Mae Diwrnodau Astudio F2 ac addysgu generig yn cael eu hamserlennu gan Fyrddau Iechyd ac mae presenoldeb yn orfodol.

[3] Yn ddelfrydol, dylid cynnal sesiynau blasu gyrfa/arweinyddiaeth o fewn yr un Bwrdd Iechyd, er y gellir eu cynnal o fewn Cymru Cymru lle mae rheswm penodol. **Ni fydd** y rhain yn cael eu cymeradwyo ar gyfer lleoliadau y tu allan i Gymru neu'r DU. Mae rhagor o wybodaeth am sesiynau blasu ar gael ar wefan yr UKFPO.

[4] Gellir cymryd absenoldeb astudio cyffredinol i fynychu/gyflwyno mewn cynadleddau ac ar gyfer sefyll arholiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnydd gyrfa. *Ni chaniateir amser i ffwrdd i baratoi ar gyfer arholiadau ac "astudiaeth breifat".*



# Study Leave for Foundation Doctors

This document should be read in conjunction with Study leave - HEIW.

**Entitlements – Time & Budget**

The time entitlement in Foundation is split between the F1 and F2 years of training.

| Foundation Year 1 |
|---|
| Up to 2 days for ALS course completion [1] |
| Up to 5 days for tasters [3] |
| Up to 3 days general study leave [4] |
| Up to 5 days generic teaching |
| **Total – Up to 15 days** |
| *No Study Budget available* |

| Foundation Year 2 |
|---|
| 3 days for F2 Study Days [2] |
| 5 days generic teaching [2] |
| Up to 5 days for tasters [3] |
| Up to 17 days for general study leave [4] |
| **Total – Up to 30 days** |
| *£480 study budget* |

Foundation Doctors undertaking the F1 Specialised Foundation Programmes 001, 002 and 003 are also entitled to take up to 5 additional days and £250 of study leave budget to support the academic component of their post.

[1] The ALS course is arranged by local postgraduate centres, usually towards the start of the training year. Study leave may only be agreed for the in-person teaching elements of the course, and Self-Directed Time (SDT) can instead be used to complete any associated eLearning modules.

[2] F2 Study Days and generic teaching are timetabled by Health Boards and attendance is compulsory.

[3] Careers/Leadership tasters should ideally be undertaken within the same Health Board, although they can be undertaken within Wales where there is a specific reason for this. These will **not** be approved for locations outside of Wales or the UK. Further information on tasters can be found on the UKFPO website.

[4] General study leave can be taken to attend/present at conferences and for sitting exams necessary for career advancement. *Time off to prepare for exams and "private study" is not permitted.*

# Atodiad 1:

## Canllawiau Sesiynau Blasu Ysgol Sylfaen Cymru

### Diffiniad o Sesiwn Blasu:

Mae sesiwn blasu yn gyfnod o hyd at bum diwrnod, a dreulir mewn Arbenigedd lle nad yw'r meddyg Sylfaen wedi gweithio o'r blaen. Ei bwrpas yw galluogi datblygu mewnwelediad i waith a 'ffordd o fyw' yr arbenigedd a hyrwyddo myfyrio gyrfaoedd. [Sesiynau blasu arbenigol ar gyfer meddygon sylfaen - UKFPO]

Dylid cymryd sesiynau blasu yn ysbyty neu fwrdd iechyd sylfaen y meddyg Sylfaen; efallai y byddai'n bosibl iddynt gael eu trefnu mewn byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru.

### Nodau:

- Archwilio'r hyn sydd ei angen i lwyddo a chynnydd o fewn yr Arbenigedd.
- Treulio amser gydag uwch glinigwyr yn yr Arbenigedd; arsylwi sut beth yw gwaith o ddydd i ddydd a chydbwysedd gwaith/bywyd.
- Treulio amser gyda Phreswylwyr presennol o bob gradd yn yr Arbenigedd; arsylwi gwaith, trafod sut y gwnaethpwyd dewisiadau gyrfa, dysgu am arholiadau ôl-raddedig, cwricwlwm, a mynediad at Arbenigedd.
- Treulio amser gyda'r MDT ehangach sy'n cefnogi'r Arbenigedd.
- Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau addysg / hyfforddiant arbenigol. (Ni ellir defnyddio'r digwyddiadau hyn fel rhan o'ch cofnod dysgu Craidd.)

# Appendix 1:

## Wales Foundation School Taster Guidance

### Definition of a Taster:

A taster is a period of up to five days, spent in a Specialty in which the Foundation doctor has not previously worked. Its purpose is to enable the development of insight into the work and 'lifestyle' of the specialty and promote careers reflection. [Specialty tasters for foundation doctors - UKFPO]

Tasters should be taken in the Foundation doctor's base hospital or health board; it may be possible for them to be arranged in neighbouring health boards within Wales.

### Aims:

- Explore what is needed to succeed and progress within the Speciality.
- Spend time with senior clinicians in the Speciality; observing what day to day work is like and work/life balance.
- Spend time with current Residents of all grades in the Speciality; observing work, discuss how career choices were made, learning about post graduate exams, curricula, and entry into Speciality.
- Spend time with the wider MDT who support the Speciality.
- Opportunities to attend Speciality education/training events. (These events cannot be used as part of your Core learning log).

Ni ddylid defnyddio sesiynau blasu yn unig i gronni amser, cymwyseddau neu weithdrefnau mewn Arbenigedd gyda'r bwriad o hyrwyddo ceisiadau.

## Mynediad at Arbenigeddau:

- Os nad yw Arbenigedd ar gael yn eich ysbyty sylfaenol, yna gall eich FPD gynghori ble y gallech gael mynediad i'r Arbenigedd o fewn y bwrdd iechyd.
- Ni ellir ymgymryd â sesiynau blasu y tu allan i Gymru ac ni fyddant yn cael eu cefnogi gan NWSSP fel y cyflogwr arweiniol unigol neu AaGIC.
- Nid yw sesiynau blasu mewn meysydd uwch-arbenigol yn adlewyrchu'r hyfforddiant craidd mwy cyffredinol ar gyfer Arbenigeddau gyda llwybrau CCT adnabyddadwy e.e. nid oes angen cylchdro yn Ysbyty Great Ormand Street i ddysgu am hyfforddiant pediatrig craidd. Felly, dylid cymryd pob sesiwn flasu o fewn y Bwrdd Iechyd a ddyrannwyd ido, neu os nad yw ar gael, gellir trefnu'r Blasu yng Nghymru. Gwnewch yn siŵr bod gennych gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen perthnasol ar gyfer hyn.

## Gwyliau Blynyddol a Sesiynau Blasu

Ni ddylid defnyddio gwyliau blynyddol yn rheolaidd ar gyfer sesiynau blasu a gallai gyfrannu at flinder hyfforddi.



Tasters must not be used simply to accrue time, competences, or procedures in a Specialty with a view to furthering applications.

## Accessing Specialities:

- If a Speciality is not available in your base hospital, then your FPD can advise where you may be able to access the Speciality within the health board.
- Tasters cannot be taken outside of Wales and will not be supported by NWSSP as the single lead employer or HEIW.
- Super Specialised tasters do not reflect the more generalist core training for Specialities with recognisable CCT routes e.g. a rotation in Great Ormand Street Hospital is not required to learn about core paediatric training. Therefore, all Tasters are to be taken within your allocated Health Board, or if not available, the Taster can be arranged for within Wales. Please ensure you have the relevant Foundation Programme Director approval for this.

## Annual Leave and Tasters

Annual leave should not be routinely used for tasters and could contribute to training fatigue.